# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3, Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Mawrth 2026

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Richard Thomas**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

09:15-09:30

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

09:30

## 2 Papurau i'w nodi

09:30

### 2.1 Dyfodol rygbi yng Nghymru

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Gadeirydd Undeb Rygbi Cymru: Yn codi pryderon ynghylch dyfodol rygbi yng Nghymru yn dilyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar 26 Chwefror - 2 Mawrth 2026

### 2.2 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(Tudalen 3)

**Dogfennau atodol:**

Copi o lythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Yn darparu crynodeb o'r trafodaethau yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 2 Mawrth 2026

**2.3 Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)**

(Tudalen 4)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Yn hysbysu'r Pwyllgor bod Memorandwm Esboniadol diwygiedig i'r Bil wedi'i osod – 2 Mawrth 2026

**2.4 Darlledu gwasanaeth cyhoeddus**

(Tudalennau 5 - 10)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Weinidog Llywodraeth y DU dros y Diwydiannau Creadigol, y Cyfryngau a'r Celfyddydau: Yn darparu ymateb y Pwyllgor i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Siarter Frenhinol y BBC a'r Papur Gwyrdd cysylltiedig – 4 Mawrth 2026

Llythyr at y Gweinidog dros y Diwydiannau Creadigol, y Cyfryngau a'r Celfyddydau: Yn rhoi gwybod am waith diweddar y Pwyllgor ar ddarlledu yng Nghymru – 4 Mawrth 2026

**2.5 Cytundebau rhyngwladol**

(Tudalennau 11 - 14)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at y Prif Weinidog: Yn gofyn am wybodaeth am gyfraniad Llywodraeth Cymru at y trafodaethau ar Gytuniad Cyfeillgarwch a Chydweithredu Dwyochrog y DU a'r Almaen – 6 Mawrth 2026

Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, y Gymanwlad a Datblygu: Yn gofyn sut yr aeth Llywodraeth y DU ati i gynnwys Llywodraeth Cymru yn y trafodaethau ar Gytuniad Cyfeillgarwch a Chydweithredu Dwyochrog y DU a'r Almaen – 6 Mawrth 2026

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

09:30

## 4 Trafod yr adroddiad gwaddol

09:30–10:30 (Tudalennau 15 - 48)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad gwaddol drafft y Chweched Senedd (Saesneg yn unig)

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Richard Collier-Keywood, Cadeirydd
Undeb Rygbi Cymru
Stadiwm Principality
Heol y Porth
Caerdydd

2 Mawrth 2026

Dyfodol Rygbi Cymru

Annwyl Mr Collier-Keywood,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ddydd Iau diwethaf, a hoffwn ddiolch i chi, Alison Thorne a Geraint John am ymddangos gerbron y Pwyllgor.

Rydym yn cydnabod y gwaith caled, sylweddol, sydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf i sefydlogi sefyllfa ariannol Undeb Rygbi Cymru, yn ogystal â datblygiadau cadarnhaol o fewn diwylliant yr Undeb. Rydym hefyd yn cydnabod bod yr Undeb ac arweinwyr unigol weithiau'n agored i feirniadaeth sy'n amhriodol o ddidostur, yn enwedig ar-lein.

Fodd bynnag, mae'n amlwg i ni fod rygbi Cymru mewn cyflwr enbydus. Mae’r ansicrwydd ynghylch dyfodol y rhanbarthau wedi achosi cryn bryder i bobl o bob cwr o Gymru. Ni ellir cyflawni unrhyw raglen newid heb feithrin consensws dros y newid hwnnw. Mae'n amlwg nad oes gan yr Undeb y consensws sydd ei angen i fwrw ymlaen â'r cynnig i leihau nifer y timau rhanbarthol o bedwar i dri. Rhaid i Undeb Rygbi Cymru gydnabod ei fod wedi colli'r ddadl dros ddyfodol y gêm broffesiynol.

Roedden ni’n synnu eich clywed chi’n dweud wrthym, os na fydd eich cynigion presennol yn mynd rhagddynt yn ôl eich disgwyl, nad oes gennych chi Gynllun B. Pe bai hyn yn wir, gallai fod yn arwydd eich bod yn esgeuluso'ch dyletswyddau yn sylweddol. Rydym yn eich annog yn gryf i ddod o hyd i ddull gwahanol sy'n parhau i sefydlogi sefyllfa ariannol yr Undeb a chynnal hyder, ac sydd hefyd yn meithrin ymddiriedaeth clybiau a chefnogwyr.

Mae gan bobl Cymru ymdeimlad dwfn o berchnogaeth, balchder a chysylltiad emosiynol â’r gamp. Rhaid parchu a meithrin y cysylltiad hwnnw. Rhaid i'r Undeb osgoi sefyllfa lle mae’n ennill y bleidlais ond yn colli enaid rygbi Cymru.

Byddem yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch y materion sydd yn y llythyr hwn.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS

Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: HID PO 113 26

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

2 Chwefror 2026

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i dynnu eich sylw at **Ddatganiad Ysgrifenedig Gweinidogol** sy'n crynhoi'r trafodaethau yn y cyfarfod diweddaraf o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol.

Ymhellach i'm llythyr a oedd yn rhoi gwybod bod y cyfarfod gwreiddiol a drefnwyd ar gyfer 5 Chwefror wedi'i ohirio, ac y byddwn yn ysgrifennu eto unwaith y byddai dyddiad newydd yn cael ei bennu, nid oeddwn wedi gallu rhoi gwybod ymlaen llaw gan fod dyddiad newydd y cyfarfod wedi'i gytuno ar fyr rybudd.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Cyllid; Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a Chydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/HIDCC/0424/26

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

2 Mawrth 2026

Annwyl Delyth,

**Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Memorandwm Esboniadol Diwygiedig**

Ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2 mewn cysylltiad â Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru), ac yn unol â Rheol Sefydlog 26.28, gosodwyd Memorandwm Esboniadol diwygiedig. Mae hwn yn ystyried y gwelliant a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod 2, i adlewyrchu darpariaethau diwygiedig. Gwnaed diweddariadau i Bennod 5 er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa ar y pwerau ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth, ac i Atodiad 1 i sicrhau bod y Nodiadau Esboniadol yn adlewyrchu'r Bil fel y'i diwygiwyd.

Ar 5 Ionawr, ysgrifennais i nodi fy ymateb cychwynnol i argymhellion y Pwyllgor yn adroddiad Cyfnod 1. Ers cyflwyno'r Bil, rydym wedi derbyn gwybodaeth ychwanegol i gefnogi ein hasesiadau o'r effeithiau. Mae'r wybodaeth hon wedi'i hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol.

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch unwaith eto i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol am ei waith craffu ar y Bil.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Ian Murray AS
Y Gweinidog Gwladol (Gweinidog y Diwydiannau Creadigol, y Cyfryngau a'r Celfyddydau)
Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

4 Mawrth 2026

Annwyl Weinidog,

**Yr Adolygiad o Siarter Frenhinol y BBC – ymgynghoriad Papur Gwyrdd**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried y llythyr canlynol fel ymateb y Pwyllgor i'r ymgynghoriad Papur Gwyrdd ynghylch yr Adolygiad o Siarter Frenhinol y BBC.

**Cyllid**

Mae'r BBC ac S4C mor hanfodol ag y buont erioed yng Nghymru. Er gwaethaf y cynnydd mewn gwasanaethau fideo a sain digidol, mae bywyd yng Nghymru yn parhau i gael ei dangynrychioli yn y cyfryngau darlledu. Darlledu a ariennir yn gyhoeddus yw conglfaen y ddarpariaeth am Gymru o hyd – o gynnwys newyddion am wleidyddiaeth ddatganoledig i adrodd straeon o Gymru mewn dramâu, rhaglenni dogfen a chomedi. Yn ystod cyfnod y Siarter nesaf, mae'n hanfodol bod y BBC ac S4C yn cael o leiaf y symiau o gyllid y maent yn eu cael ar hyn o bryd, wedi'u cynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Mae angen gwarantu cyllid digonol ar gyfer S4C. Dylid sicrhau cynnydd ar y lefelau presennol, yn sgil toriadau hirdymor sylweddol i gyllid y darlledydd a chynnydd yn y costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethu cynulleidfaoedd ar draws sawl platfform digidol.

Mae'r dystiolaeth a gawsom yn dangos bod y ffi drwydded yn fecanwaith ariannu y mae mwy a mwy o bobl yn ei herio. Y pwynt hanfodol yw'r ffaith bod y mecanwaith ariannu yn un cyffredinol (gydag esemptiadau i rai nad oes modd iddynt dalu). Mae darpariaeth gyffredinol yn ganolog i'r BBC ac S4C. Mae modelau hysbysebu a thanysgrifio yn creu cymhellion i ddarlledwyr sy'n anghydnaws â'r cysyniad o ddarpariaeth gyffredinol, fel ceisio sicrhau'r nifer uchaf posibl o wylwyr ar bob achlysur a bodloni dymuniadau tanysgrifwyr. Rydym felly yn argymell y canlynol:

> Argymhelliad 1: Yn ystod cyfnod y Siarter nesaf, dylai'r BBC ac S4C gael o leiaf y symiau o gyllid y maent yn eu cael ar hyn o bryd, wedi'u cynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Argymhelliad 2: Mae angen gwarantu cyllid digonol ar gyfer S4C. Dylid sicrhau cynnydd ar y lefelau presennol, yn sgil toriadau hirdymor sylweddol i gyllid y darlledydd a chynnydd yn y costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethu cynulleidfaoedd ar draws sawl platfform digidol.

Argymhelliad 3: Dylai'r BBC ac S4C gael eu hariannu drwy fecanwaith cyffredinol (gydag esemptiadau i'r rhai nad oes modd iddynt dalu).

**Cylch gwaith y BBC**

Fel yr amlinellir uchod, dylai cyffredinolrwydd barhau i fod yn gonglfaen o ran darpariaeth y BBC ac S4C. Mae mynd i'r afael â methiannau'r farchnad – gan gynnwys darpariaeth Gymraeg a chynnwys lleol am Gymru – yn hanfodol i'r BBC yng Nghymru ac S4C, ond felly hefyd mae'r sefyllfa o ran creu cynnwys poblogaidd sy'n dwyn cynulleidfaoedd ynghyd. Er enghraifft, rydym wedi cefnogi ymdrechion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau bod gemau chwaraeon cenedlaethol, fel Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad, yn parhau i fod ar gael yn rhad ac am ddim.

Yng nghyd-destun newyddion a materion cyfoes, dylid ystyried cywirdeb yr un mor bwysig â didueddrwydd. Yn rhy aml, mae'r BBC yn parhau i ddarlledu fel pe bai'n gwasanaethu cynulleidfaoedd yn Lloegr yn unig: hynny yw, yn rhy aml rydym yn gweld y darlledydd yn egluro bod polisi penodol gan Lywodraeth y DU yn berthnasol yn Lloegr yn unig, ond nid yw'n dangos digon o chwilfrydedd o ran archwilio beth sy'n digwydd yng nghenhedloedd eraill y DU. Nid yw adlewyrchu natur ddatganoledig y DU yn fater syml o ychwanegu "yn Lloegr" at fwletin newyddion yn unig. Yn hytrach, mae'n rhaid ailystyried sut mae newyddion gwleidyddol yn cael ei gyflwyno i adlewyrchu realaeth o ran y ffordd y mae'r DU yn cael ei llywodraethu. O ran gwasanaethu cynulleidfaoedd yng Nghymru a thu hwnt, mae angen i newyddion a materion cyfoes adlewyrchu natur ddatganoledig y DU yn well. Mae'r BBC wedi gwneud cynnydd yn hyn o beth, ac mae angen cyflymu'r broses honno yn ystod cyfnod y Siarter nesaf.

Mae'r modd y caiff bywyd yng Nghymru ei gynrychioli ar y BBC y parhau i fod yn ddiffygiol. Ar hyn o bryd, nodwn fod y swm y mae'r BBC yn ei wario ar gynnwys teledu ar gyfer cynulleidfaoedd lleol yn yr Alban ddwywaith yn fwy na'r hyn y mae'n ei wario ar gynnwys lleol yng Nghymru. Yn y Siarter nesaf, dylid blaenoriaethu'r angen i adlewyrchu cenhedloedd y DU, o ran cynhyrchu adroddiadau cywir ar ddatganoli ac o ran creu cynnwys nad yw'n newyddion. Rydym felly yn argymell y canlynol:

Argymhelliad 4: Dylai darpariaeth gyffredinol barhau i fod yn gonglfaen o ran darpariaeth y BBC ac S4C.

Argymhelliad 5: Yng nghyd-destun newyddion a materion cyfoes, dylid ystyried cywirdeb yr un mor bwysig â didueddrwydd. I'r perwyl hwn, dylai'r BBC barhau i wella'r modd y mae'n adrodd ar faterion polisi datganoledig.

Argymhelliad 6: Yn y Siarter nesaf, dylid blaenoriaethu'r angen i adlewyrchu cenhedloedd y DU, o ran cynhyrchu adroddiadau cywir ar ddatganoli ac o ran creu cynnwys nad yw'n newyddion.

### Cefnogi'r diwydiannau creadigol

Mae gwariant rhwydwaith y BBC yng Nghymru wedi bod yn rhan ganolog o ddatblygu'r diwydiannau sgrin yng Nghaerdydd a thu hwnt. Disgrifiwyd S4C gan Geraint Evans, Prif Swyddog Gweithredol y sefydliad, fel "catalydd economaidd i Gymru", sy'n cefnogi'r sector cynhyrchu ledled y genedl. Mae'r ddau ddarlledydd wedi creu cyflogaeth i weithlu medrus, sydd wedi denu mwy o weithgarwch i'r sector cynhyrchu.

Yn ystod cyfnod y Siarter nesaf, dylid cynnal rôl y BBC fel catalydd economaidd yng Nghymru. O ran gwariant ac oriau rhwydwaith yng ngwledydd y DU, dylid cynnal y cwotâu presennol, sy'n seiliedig ar gyfran y boblogaeth.

Mae rôl werthfawr S4C o ran ysgogi gweithgarwch economaidd ledled Cymru yn tanlinellu pwysigrwydd darparu cyllid digonol i'r darlledydd. Rydym felly yn argymell y canlynol:

Argymhelliad 7: Yn ystod cyfnod y Siarter nesaf, dylid cynnal rôl y BBC fel catalydd economaidd yng Nghymru. O ran gwariant ac oriau rhwydwaith yng ngwledydd y DU, dylid cynnal y cwotâu presennol, sy'n seiliedig ar gyfran y boblogaeth.

Argymhelliad 8: Dylid cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae S4C yn ei wneud i ysgogi gweithgarwch economaidd ledled Cymru, a dylid darparu digon o gyllid i'r darlledydd barhau i wneud hyn.

### Strwythurau sefydliadol ac ymgysylltu â Chymru

Yn rhy aml, mae'r BBC wedi bod yn destun dylanwad gwleidyddol gan Lywodraeth y DU. Fel arall, mae penderfyniadau pwysig ynghylch ei gyllid a'i gylch gwaith wedi cael eu gwneud yn groes i ddymuniadau llywodraethau datganoledig ledled y DU.

Dywedodd Justin Lewis, athro ym maes cyfathrebu a'r diwydiannau creadigol yn Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant yng Nghaerdydd:

> *"What we will really need to see, and this is absolutely crucial, is a set of structures created that puts the decision making about both funding and governance of the BBC at much more of an arm's length from the Westminster Government than it currently is. Other countries across Europe do that. I think we should learn from those and follow suit, because it seems to me ridiculous that every 10 years, the BBC's existential existence is up for grabs."*

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2021, sef Edrych ar ddatganoli darlledu, galwodd y Pwyllgor a wnaeth ein rhagflaenu am "weld comisiwn ariannu annibynnol yn cael ei sefydlu â chynrychiolaeth benodol o Gymru". Rydym yn cefnogi'r argymhelliad hwn. Credwn y byddai'n helpu i warchod y BBC rhag ymyrraeth wleidyddol, ac y byddai'n adlewyrchu natur ddatganoledig y DU yn well.

Rydym yn siomedig nad oeddech chi nac un o'ch cydweithwyr yn gallu dod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod y materion hyn. Er ein bod yn cydnabod bod darlledu yn bŵer a gedwir yn ôl ar hyn o bryd, mae ganddo oblygiadau sylweddol i feysydd datganoledig a bywyd dinesig yng Nghymru. Mae'n briodol bod Llywodraeth y DU yn trafod y materion hyn gyda Senedd genedlaethol Cymru. Mae'n hanfodol bod y broses o ymgysylltu â'r Senedd yn gwella wrth i'r broses o adnewyddu'r Siarter ddatblygu. Rydym felly yn argymell y canlynol:

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth y DU sefydlu comisiwn annibynnol i benderfynu ar gyllid a chylchoedd gwaith y BBC ac S4C, gyda chynrychiolaeth benodol o Gymru. Dylai'r penderfyniadau a wneir gan gorff o'r fath fod yn destun cydsyniad gan gynrychiolwyr o holl wledydd y DU. Dylai'r aelodau o Gymru ar y comisiwn gael eu penodi gan Lywodraeth Cymru, a dylent fod yn destun gwrandawiad cyn penodi gerbron un o bwyllgorau priodol y Senedd.

Argymhelliad 10: Dylai un o Weinidogion Llywodraeth y DU ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y Senedd nesaf i drafod yr Adolygiad o Siarter Frenhinol y BBC.

Yn gywir,


Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol


Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Ian Murray AS
Y Gweinidog Gwladol (Gweinidog y Diwydiannau Creadigol, y Cyfryngau a'r Celfyddydau)
Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

4 Mawrth 2026

Annwyl Weinidog,

**Darlledu yng Nghymru**

Yn ddiweddar, gwnaeth ein Pwyllgor gwblhau cyfres o sesiynau craffu, yn edrych ar sefyllfa bresennol darlledu yng Nghymru. Roeddem yn siomedig nad oeddech chi nac un o'ch cydweithwyr wedi gallu dod i un o'r sesiynau hyn. Er ein bod yn cydnabod bod darlledu yn bŵer a gedwir yn ôl ar hyn o bryd, mae'n faes sydd ag effaith sylweddol ar feysydd datganoledig a bywyd dinesig yng Nghymru. Rydym yn disgwyl gweld gwelliant yn y broses o ymgysylltu â'r pwyllgor sy'n ein holynu, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd adnewyddu Siarter y BBC i Gymru.

**Mae'r cynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau yn annigonol**

Fel Pwyllgor, credwn fod y cynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau yn annigonol. Gwnaethom nodi'r casgliad hwn mewn adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2024, sef Y sefyllfa sydd ohoni. Rydym yn parhau i arddel y farn hon yn dilyn ein sesiynau diweddar gyda darlledwyr, academyddion ac Ofcom.

Mae'r lefel annigonol o gynnwys sydd ar gael ar y cyfryngau yn andwyo Cymru ar lefel ddinesig a democrataidd, gan na all pobl weld eu hunain ar eu sgriniau, ac maent yn llai gwybodus am y strwythurau gwleidyddol sy'n rheoli cyfran helaeth o'u bywydau. Mae Llywodraeth Cymru, y Pwyllgor hwn a'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru i gyd wedi codi pryderon ynghylch y lefel annigonol o gynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau.

Credwn fod diffyg eglurder o hyd ynghylch sut y bydd unrhyw welliannau sylweddol yn digwydd o ran y cyflenwad o gynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau. Ymddengys mai diben gweithgarwch rheoleiddio Ofcom yw cynnal y sefyllfa bresennol yn hytrach nag ysgogi gwelliannau. Mae gwaith y BBC ac S4C yn ddarostyngedig i doriadau hirdymor i'w cyllidebau gan Lywodraeth y DU. Ymddengys nad yw ITV o’r farn bod cynyddu darpariaeth i Gymru er budd ei gyfranddalwyr. Yn y pen draw, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am wella’r sefyllfa. Rydym yn galw arnoch i wella’r cyflenwad o gynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau, yn hytrach na rheoli'r sefyllfa bresennol, sy’n ddiffygiol.

Rydym wedi rhestru ein hargymhellion ar gyfer y BBC, S4C, ITV, Channel 4 ac Ofcom yn y llythyrau sydd ynghlwm.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

6 Mawrth 2026

**Cytuniad y DU a'r Almaen ar Gyfeillgarwch a Chydweithrediad Dwyochrog**

Annwyl Eluned,

Ar 17 Chwefror, cyfeiriodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Gytuniad y DU a'r Almaen ar Gyfeillgarwch a Chydweithrediad Dwyochrog, a gafodd ei osod yn Senedd y DU ym mis Ionawr, at y Pwyllgor hwn. Gwnaed y penderfyniad hwn yn sgil goblygiadau'r Cytuniad i gysylltiadau rhyngwladol Cymru a'r meysydd datganoledig o fewn ein cylch gwaith. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU yn cadarnhau yr ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch y Cytuniad, ond ni ddarperir unrhyw fanylion pellach.

Yng ngoleuni'r uchod, ac o ystyried y ffaith bod Llywodraeth Cymru, yn ei Strategaeth Ryngwladol, wedi enwi'r Almaen fel un o dair gwlad â blaenoriaeth o ran ei chysylltiadau rhyngwladol, gwnaethom gytuno i ofyn am eglurhad pellach ynghylch rôl Llywodraeth Cymru yn y broses o negodi a chwblhau'r Cytuniad, gan gynnwys pa Weinidogion ac adrannau yn Llywodraeth Cymru, os o gwbl, a gymerodd ran. Yn ogystal, byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y meysydd a ganlyn:

- a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r Cytuniad;
- pa un a gafodd Llywodraeth Cymru gyfle i awgrymu blaenoriaethau a/neu welliannau, beth oeddent, a chadarnhad ynghylch a gawsant eu hymgorffori;
- rhagor o wybodaeth am y camau a gymerwyd i weithredu'r Cytuniad, neu i baratoi ar gyfer ei weithredu;

- sut y bydd trefniadau newydd y DU yn gweithio ochr yn ochr â threfniadau presennol Llywodraeth Cymru, ac a fydd unrhyw newidiadau’n deillio o hynny;
- a fydd y llywodraethau datganoledig yn cael eu cynrychioli yng Nghomisiwn Diwylliannol y DU a’r Almaen; a
- pha fforymau rhynglywodraethol domestig, os o gwbl, fydd yn cael eu defnyddio i drafod gweithrediad y DU, megis Grwpiau Rhyngweinidogol.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am eglurder ynghylch yr uchod.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 27 Mawrth.

Yn gywir,



**Delyth Jewell AS**

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Yvette Cooper AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor,
y Gymanwlad a Datblygu
Llywodraeth y DU

6 Mawrth 2026

**Cytuniad y DU a'r Almaen ar Gyfeillgarwch a Chydweithrediad Dwyochrog**

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

Fel rhan o broses graffu bwrpasol y Senedd ar gytuniadau, cyfeiriodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Gytuniad y DU a'r Almaen ar Gyfeillgarwch a Chydweithrediad Dwyochrog, a gafodd ei osod yn Senedd y DU ym mis Ionawr, at y Pwyllgor hwn ar 17 Chwefror. O ran cysylltiadau rhyngwladol, mae goblygiadau pwysig yn deillio o'r Cytuniad i DU a Chymru, ac mae'r cytuniad yn cwmpasu meysydd datganoledig o fewn ein cylch gwaith, gan gynnwys diwylliant. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU yn cadarnhau yr ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch y Cytuniad, ond ni ddarperir unrhyw fanylion pellach.

Yng ngoleuni'r uchod, ac o ystyried y ffaith bod Llywodraeth Cymru, yn ei Strategaeth Ryngwladol, wedi enwi'r Almaen fel un o dair gwlad â blaenoriaeth o ran ei chysylltiadau rhyngwladol, gwnaethom gytuno i ofyn am eglurhad pellach ynghylch sut y gwnaeth Llywodraeth y DU gynnwys Llywodraeth Cymru yn y broses o negodi a chwblhau'r Cytuniad, gan gynnwys pa Weinidogion ac adrannau yn Llywodraeth Cymru oedd yn destun gwaith ymgynghori gan Weinidogion ac adrannau yn Llywodraeth y DU. Yn ogystal, byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y meysydd a ganlyn:

- pa un a gafodd Llywodraeth Cymru gyfle i awgrymu blaenoriaethau a/neu welliannau, a chadarnhad ynghylch a gawsant eu hymgorffori gan Lywodraeth y DU;
- rhagor o wybodaeth am y camau a gymerwyd i weithredu'r Cytuniad, neu i baratoi ar gyfer ei weithredu, gan gynnwys mewn meysydd datganoledig;

Senedd Cymru
Welsh Parliament

- sut y bydd trefniadau newydd y DU yn gweithio ochr yn ochr â threfniadau presennol Llywodraeth Cymru;
- a fydd y llywodraethau datganoledig yn cael eu cynrychioli yng Nghomisiwn Diwylliannol y DU a’r Almaen;
- cadarnhad ynghylch a fydd Llywodraeth y DU yn ceisio barn Llywodraeth Cymru i lywio trafodaethau dwyochrog â'r Almaen, a sut y bydd hynny'n digwydd; a
- pha fforymau rhynglywodraethol domestig, os o gwbl, fydd yn cael eu defnyddio i drafod gweithrediad y DU, megis Grwpiau Rhyngweinidogol.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ynghylch yr uchod.

O gofio bod y Chweched Senedd yn prysur ddirwyn i ben, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 27 Mawrth.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon